

Crynodeb a barn gyffredinol

Ystyriwyd Lefelau 3 a 4 a barnwyd mai Lefel 3 oedd yn cyd-fynd orau.

Yn 'Adeiladu trionglau', 'Trefnu rhifau' a 'Rhifau dilynol' mae Siwan wedi *trefnu ei gwaith a gwirio canlyniadau*. Mae hi wedi *rhoi cynnig ar wahanol ddulliau* yn 'Rhifau dilynol', ac yn 'Pa siâp?' ac 'Adeiladu trionglau' mae hi wedi *siarad am ei gwaith a'i esbonio*. Yn 'Adeiladu trionglau' mae hi wedi *defnyddio a dehongli symbolau a diagramau mathemategol* wrth ddefnyddio peiriant ffwythiant ac wedi *darganfod enghraifft arbennig sy'n bodloni datganiad cyffredinol*. Mae hi wedi *defnyddio gwerth lle mewn rhifau hyd at 1000* yn 'Trefnu rhifau', mae hi wedi defnyddio *strategaethau rhifydddeg pen ar gyfer adio* yn 'Rhifau dilynol', ac yn 'Trefnu rhifau' mae hi wedi *defnyddio'i gallu i alw tabl lluos 4 i gof wrth rannu, gan gynnwys y rhai sy'n esgor ar weddillion*. Mae hi wedi *dosbarthu siapiau mewn amryw o ffyrdd* yn 'Pa siâp?', ac yn 'Ein dosbarth ni' mae hi wedi *llunio a dehongli siart bar* ac wedi *dehongli pictogram*. Mae hyn i gyd yn nodweddiadol o waith Lefel 3.

Yn 'Rhifau dilynol' ac i raddau yn 'Trefnu rhifau', nid oedd hi'n cofnodi'n ddigon systematig i weld y patrymau sy'n codi; mae hyn yn nodwedd o Lefel 3, gan nad oedd hi eto yn ddigon cyson ar gyfer Lefel 4.

Mae Siwan wedi dechrau *datblygu strategaethau ar gyfer datrys problemau* yn 'Adeiladu trionglau', 'Trefnu rhifau' a 'Rhifau dilynol', er nad oedd ei strategaeth cynnar yn 'Rhifau dilynol' yn llwyddiannus. Roedd ei gwaith yn 'Pa siâp?' yn dangos ei bod hi'n adnabod *siapiau 2-D cyffredin mewn gwahanol gyfeiriadaethau ar grid*. Yn 'Adeiladu trionglau', mae hi wedi *adnabod a disgrifio'r patrwm* sy'n codi o'i chanlyniadau, a llwyddodd i greu a *defnyddio fformiwla syml sydd wedi ei mynegi mewn geiriau*. Mae hi wedi *casglu data arwahanol* yn 'Ein dosbarth ni'. Mae'r gwaith yma yn nodweddiadol o waith cynnar Lefel 4.

Crynodeb a barn gyffredinol

Ystyriwyd Lefelau 4 a 5 a barnwyd mai Lefel 4 oedd yn cyd-fynd orau.

Yn 'Cyfateb', mae Nisha wedi *defnyddio nodiant degol*, yn 'Rhifau dilynol' mae hi wedi *galw tablau lluosu 3 a 5 i gof*, ac yn 'Taldra' mae hi wedi *defnyddio unedau safonol ar gyfer hyd*. Mae rhain yn nodweddiadol o Lefel 3.

Yn 'Rhifau dilynol', 'Ein dosbarth ni' ac 'Adeiladu trionglaau' mae Nisha wedi *datblygu strategaethau ar gyfer datrys problemau, ac wedi cyflwyno gwybodaeth a chanlyniadau mewn modd systematig*. Yn 'Cyfateb', mae hi wedi *defnyddio amrywiaeth o ddulliau pen ac ysgrifenedig o gyfrifiannu ac wedi defnyddio ffracsiynau syml a chanrannau i ddisgrifio rhannu bras o yn cyfan*. Mae hi wedi *adnabod a disgrifio patrymau rhif a defnyddio fformiwla syml sydd wedi ei fynegi mewn geiriau yn 'Adeiladu trionglaau' a 'Rhifau dilynol'*. Yn 'Cynllunio byngalo' mae hi wedi *lluniadu siapiau 2-D cyffredin mewn gwahanol gyfeiriadaethau ar grid, a darganfod perimedr siapiau ac arwynebedd drwy gyfrif sgwariau*. Yn 'Taldra', mae hi wedi *casglu data arwahanol, a'u grwpio'n briodol a chanfyddodd hi modd a chanolrif set o ddata*. Mae hyn i gyd yn nodweddiadol o Lefel 4.

Yn 'Adeiladu trionglaau', mae Nisha wedi *disgrifio sefyllfa yn fathemategol gan ddefnyddio symbolau a geiriau, sy'n nodweddiadol o Lefel 5*; serch hynny nid oedd hi'n gyson yn esbonio ei rhesymu. Mae hi wedi *troi un uned fetrig i un arall yn 'Ein dosbarth ni' a 'Cyfateb'*. Yn 'Cyfateb', hefyd, mae hi wedi *cyfrifo rhannau ffracsiynol neu ganrannol o feintiau a mesuriadau, sydd yn nodweddiadol o Lefel 5*, ond nid oedd hi'n hollol sicr gyda rhifau anghyfarwydd, gan eu troi i rifau mwy syml.

Crynodeb a barn gyffredinol

Ystyriwyd Lefelau 4, 5 a 6 a barnwyd mai Lefel 5 oedd yn cyd-fynd orau.

Mae Siôn wedi *datblygu strategaethau ar gyfer datrys problem*, ac wedi *cyflwyno canlyniadau mewn modd systematig* yn 'Rhifau dilynol' ac 'Adeiladu trionglau'. Yn 'Cynllunio byngalo', mae e wedi *darllen, gyda'r manwl gywirdeb priodol, rifau ar ystod o offer mesur*; mae e hefyd wedi *defnyddio ei wybodaeth o siâp ac wedi lluniadu siapiau 2-D cyffredin*. Yn 'Rali Network Q', mae e wedi *defnyddio ei ddealltwriaeth o werth lle i luosi a rhannu rhifau cyfan â 10 yng nghyd-destun arian*. Mae hyn i gyd yn nodweddion o Lefel 4.

Mae Siôn wedi dangos ei fod e'n ymwybodol fod angen i'w *ganlyniadau fod yn synhwyrol yng nghyswllt y broblem* yn 'Rali Network Q'. Yn 'Rhifau dilynol' ac 'Adeiladu trionglau', mae e wedi *disgrifio sefyllfaoedd yn fathemategol gan ddefnyddio symbolau a geiriau ac wedi tynnu casgliadau ei hunan, gan esbonio ei resymu*. Yn 'Rhifau dilynol', mae e hefyd wedi *gwneud ei fynegiad cyffredinol ei hunan ar sail y dystiolaeth sydd ar gael*. Mae e wedi *cyfrifo rhannau ffracsiynol neu ganrannol o feintiau a mesuriadau* yn 'Cyfateb', ac mae e wedi *llunio a defnyddio fformiwla syml sy'n cynnwys dau weithrediad* yn 'Adeiladu trionglau'. Yn 'Cynllunio byngalo', mae e wedi *mesur a llunio onglau i'r radd agosaf*, ac yn 'Cyfateb' mae e wedi *trosi un uned fetrig i un arall*. Mae hyn oll yn nodweddiadol o Lefel 5.

Yn 'Cyfateb', mae Siôn wedi *defnyddio'r cywerthoedd rhwng ffracsiynau, degolion a chanrannau*, sy'n nodwedd o Lefel 6.